Bridgend County Borough Council

# Ysgolion Cynradd Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

## Dogfen ymgynghori

Cynnig i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin i ben a sefydlu ysgol newydd o 1 Medi 2023 a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol y Ferch o'r Sgêr trwy ehangu'r ysgol o 2 Medi 2024.

**Dyddiad cyhoeddi**: 25 Ionawr 2021

**Ymatebion erbyn:** 7 Mawrth 2021

**Ffôn**: (01656) 643 664

**E-bost**: consultation@bridgend.gov.uk

**Gwefan:** www.bridgend.gov.uk/consultation

# Cynnwys

Trosolwg ........ 3
Sut i ymateb ........ 3
Diogelu data ........ 3
Dogfennau cysylltiedig ........ 3
Cefndir a gwybodaeth ........ 4
Y cynnig ........ 5
Pam fod y cynnig hwn wedi cael ei ddwyn gerbron? ........ 6
Yr hyn y mae'r cynnig yn ei olygu'n ymarferol ........ 6
Corff Llywodraethu ........ 7
Materion Staffio ........ 7
Beth yw'r manteision os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen? ........ 8
Beth yw'r anfanteision posibl os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen? ........ 8
Effaith y cynigion ........ 8
Asesiadau o'r Effaith ........ 12
Risgiau ........ 13
Dewisiadau Eraill ........ 14
Manylion yr ysgolion yr effeithir arnynt ........ 16
Cyllid ........ 21
Y broses ymgynghori ........ 22
Ffurflen ymateb ........ 25
Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ........ 26
Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ........ 31
Atodiad C – Ffurflen sgrinio i asesu'r effaith ar gydraddoldeb ........ 33
Atodiad 1 ........ 38
Atodiad 2 ........ 41

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

## Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gwahodd pobl i fynegi barn am y cynnig i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin i ben a sefydlu ysgol newydd o 1 Medi 2023 a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol y Ferch o'r Sgêr trwy ehangu'r ysgol o 2 Medi 2024.

## Sut i ymateb

Bydd y cyfnod ymgynghori'n dechrau ar **25 Ionawr 2021** ac yn dod i ben ar **7 Mawrth 2021**.

Gallwch ymateb ar y ffurflen sydd wedi'i chynnwys (gweler tudalen 24 yn y ddogfen hon) neu ar-lein a gofyn cwestiynau pellach yn y ffyrdd canlynol;

**Ffôn:** (01656) 643 643

**E-bost:** edsu@bridgend.gov.uk

**Ar-lein:**
www.bridgend.gov.uk/consultation

**Post:** Anfonwch eich ffurflen ymateb wedi'i chwblhau (gweler tudalen 24 yn y ddogfen hon) i'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd – Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth (EDSU), Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

Mae fformatau eraill ar gael ar gais hefyd.

## Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth y byddwch yn eu rhannu gyda ni

Bydd yr holl ymatebion a ddaw i law Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu gweld yn llawn gan yr aelodau o'i staff sy'n gysylltiedig â'r broses ymgynghori. Efallai y bydd yr wybodaeth hefyd yn cael ei gweld gan adrannau eraill yn y Cyngor neu aelodau eraill y Bwrdd Gwasanaetha Lleol i helpu i wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Efallai y bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i gyhoeddi dogfennau dilynol sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â'r ymgynghoriad hwn; fodd bynnag, ni fydd y Cyngor byth yn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol megis enwau neu gyfeiriadau a allai ddynodi pwy yw unigolyn.

Os nad ydych yn dymuno i'ch barn gael ei chyhoeddi, nodwch hynny yn eich ymateb.

## Dogfennau cysylltiedig

I gael rhagor o wybodaeth am ymgynghoriadau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr neu sut i ymuno â'n Panel Dinasyddion.

**Ewch at y dudalen we ganlynol:**
www.bridgend.gov.uk/consultation

## Cefndir a gwybodaeth

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gwahodd pobl i fynegi barn am y cynnig i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin i ben a sefydlu ysgol newydd o 1 Medi 2023 a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol y Ferch o'r Sgêr trwy ehangu'r ysgol o 2 Medi 2024.

Rydym yn ymgynghori â nifer o randdeiliaid ac yn gofyn am eu barn (i gael rhestr lawn gweler atodiad 2). Bydd y broses ymgynghori hon yn rhedeg o 25 Ionawr 2021 tan 7 Mawrth 2021.

## Y cynnig

Cynigir disodli'r ysgol gynradd Gymraeg ag 1 dosbarth mynediad sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd (Ysgol y Ferch o'r Sgêr) â darpariaeth wedi'i hehangu, trwy adeiladu ysgol newydd â 2 ddosbarth mynediad ac uned feithrin â 60 o leoedd. Bydd hyn yn diwallu'r angen am leoedd ar gyfer disgyblion ac yn hybu twf y Gymraeg. Bydd yn cael gwared â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw gwerth £569,254 ac yn darparu ysgol yr 21ain ganrif yn lle adeilad presennol yr ysgol sydd wedi mynd â'i ben iddo, a godwyd ym 1955, ac sydd yng nghategori C+ o ran ei gyflwr ar hyn o bryd (gwael – yn dangos diffygion mawr a/ neu ddim yn gweithredu fel a fwriadwyd).

Cynigir hefyd cau ac ad-drefnu'r ysgolion cynradd Saesneg lleol presennol yn yr ardal (Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin) a dod â hwy ynghyd ar safle ysgol newydd. Byddai gan yr ysgol Saesneg newydd hithau gapasiti o 2 ddosbarth mynediad, uned feithrin â 60 o leoedd a Chanolfan Adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol â 15 o leoedd. Byddai hyn yn cael gwared ar ôl-groniad o waith cynnal a chadw gwerth £525,450 mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Afon y Felin (a godwyd ym 1977) a gwerth £419,030 mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Corneli, y maent ill dwy yng nghategori C+ o ran eu cyflwr ar hyn o bryd (gwael – yn dangos diffygion mawr a/ neu ddim yn gweithredu fel a fwriadwyd).

Bydd angen i'r gwaith adeiladu ar gyfer y ddwy ysgol newydd a gynigir fel rhan o gynllun Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr ddigwydd mewn modd graddol. Un o'r safleoedd arfaethedig ar gyfer codi ysgol yw tir agored ar ystâd 'Marlas' sy'n eiddo i Gymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir (V2C), tra bo'r safle arfaethedig arall wedi'i feddiannu gan Ysgol Gynradd Corneli, Ysgol y Ferch o'r Sgêr a Chanolfan Blant Integredig Corneli ar hyn o bryd. O ganlyniad, unwaith y bydd yr ysgol newydd gyntaf wedi'i chwblhau ar y tir agored ar ystâd 'Marlas', bydd angen i'r ysgol Saesneg newydd (yn lle Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin) symud i mewn i'r adeilad newydd er mwyn rhyddhau ardaloedd ar safle presennol Corneli ar gyfer datblygiad graddol dilynol yr ail adeilad ysgol newydd (Ysgol y Ferch o'r Sgêr ar ei newydd wedd, ac wedi'i hehangu).

## Pam fod y cynnig hwn wedi cael ei ddwyn gerbron?

Ar 3 Mawrth 2015, cafwyd cymeradwyaeth y Cabinet i'r Cyngor fabwysiadu egwyddorion diwygiedig fel fframwaith ar gyfer trefniadaeth ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr; nodwyd pum egwyddor allweddol i oleuo cynlluniau i drefnu a moderneiddio ein hysgolion:

i. Ymrwymiad i safonau uchel a rhagoriaeth o ran y ddarpariaeth;

ii. Cyfle cyfartal, fel bod yr holl ddisgyblion yn gallu cael mynediad at gyfleoedd dysgu

o ansawdd, ni waeth pa ysgol y maent yn ei mynychu;

iii. Ysgolion cynhwysol, sy'n diwallu anghenion dysgu eu holl ddisgyblion;

iv. Ysgolion bro, lle mae'r ysgol yn ymgysylltu'n frwd â'i chymuned leol;

v. Gwerth am arian.

Mae'r Fframwaith Polisi a Chynllunio'n nodi 17 o feysydd lle dylai'r egwyddorion gael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae'r rhai sy'n arbennig o berthnasol yng nghyd-destun y cynnig hwn yn ymwneud â gwerth am arian, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Mae'r Cyngor wedi dwyn y cynnig hwn i adeiladu dwy ysgol newydd gerbron er mwyn:

- darparu lleoedd ychwanegol ar gyfer disgyblion cynradd i wasanaethu nifer o ddatblygiadau tai posibl,
- mynd i'r afael â materion o ran cyflwr yr adeiladau, a
- hybu'r Gymraeg yn ardal Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr.

Byddai adeiladau newydd arfaethedig yr ysgolion wedi'u dylunio'n addas i ateb y gofynion o ran dysgu ac addysgu yn yr 21$^{ain}$ Ganrif.

## Yr hyn y mae'r cynnig yn ei olygu'n ymarferol

Mae'r cynnig yn golygu y byddai'r ysgolion cynradd Saesneg lleol presennol (Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin) yn cau ac yn dod ynghyd fel ysgol

newydd ar safle ysgol newydd (safle ‘Marlas’ V2C) o fis Medi 2023. Bydd y dalgylchoedd presennol ar gyfer Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin yn aros fel y maent – gyda’r ysgol newydd a sefydlir yn dod yn gyfrifol am y ddau.

Mae’r cynnig yn golygu y byddai’r ysgol gynradd Gymraeg leol bresennol (Ysgol y Ferch o’r Sgêr) yn cael ei hehangu a’i hadleoli o fis Medi 2024 i adeilad ysgol newydd a fydd yn cael ei godi ar safle presennol Ysgol Gynradd Corneli/Ysgol y Ferch o’r Sgêr.

Byddai adeilad y Ganolfan Blant Integredig (ICC) sydd wedi’i leoli ar safle Corneli ar hyn o bryd yn aros yn ei le dan y cynnig ‘fel y mae’ ac o ganlyniad byddai’r drws nesaf i un o’r adeiladau ysgol newydd arfaethedig ar ôl ei gwblhau. Byddai gan y ddau adeilad ysgol newydd gyfleusterau cymunedol integredig pwrpasol. Dychmygir ar y cam hwn y byddai’r ddarpariaeth Dechrau’n Deg yn Ysgol Gynradd Afon y Felin yn trosglwyddo i adeilad y Ganolfan Blant Integredig pe byddid yn bwrw ymlaen â’r cynnig.

## Corff Llywodraethu

Canlyniad y cynnig, pe bai’n mynd yn ei flaen, fyddai bod y trefniadau o ran y corff llywodraethu’n aros yn sylweddol ddigyfnewid o’i gymharu â’r trefniadau presennol ar gyfer Ysgol y Ferch o’r Sgêr. Fodd bynnag, ar gyfer Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin, byddai’r cynnig yn golygu ei bod yn ofynnol dirwyn y ddwy ysgol i ben a sefydlu ysgol newydd. Felly byddai angen sefydlu corff llywodraethu newydd ar gyfer yr ysgol newydd. Y corff llywodraethu newydd fyddai’n gyfrifol am gynnig enw ar gyfer yr ysgol newydd a byddai angen i hyn gael ei gadarnhau gan y Cyngor. Y corff llywodraethu newydd fyddai hefyd yn gyfrifol am sefydlu’r strwythur staffio a’r broses penodi staff ar gyfer yr ysgol newydd.

## Materion Staffio

Canlyniad y cynnig, pe bai’n mynd yn ei flaen, fyddai bod y cyflenwad o staff, ac eithrio mewn perthynas â nifer y penaethiaid, yn aros yn sylweddol fel ag y mae, ar y sail na ragwelir gostyngiad yn nifer y disgyblion yn yr ysgolion. Gan y byddai’r ddwy ysgol Saesneg bresennol (â dau bennaeth) yn cael eu disodli gan un ysgol dan y cynnig,

mae'n debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith o ran nifer y penaethiaid y byddai eu hangen.

## Beth yw'r manteision os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen?

- Byddai disgyblion a staff yn cael budd o gyfleusterau newydd sbon;
- Arbedion yn niffyg gwariant ar atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau ysgolion sy'n heneiddio;
- Gellid ymgorffori darpariaeth gymunedol fel rhan o adeiladau newydd yr ysgolion;
- Darparu lleoedd ychwanegol ar gyfer disgyblion cynradd i wasanaethu nifer o ddatblygiadau tai lleol posibl;
- Hybu'r Gymraeg yn ardal Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr;
- Ysgolion sydd wedi'u dylunio fel eu bod yn darparu'r amgylchedd dysgu a chyfleoedd cwricwlaidd cywir yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

## Beth yw'r anfanteision posibl os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen?

Mae maes cwrt caled a strwythur 'cynhwysydd' metel ar y tir oddi ar Ffordd Gibbons ym Mhlas Morlais (sy'n eiddo i V2C) sydd wedi'i leoli ar ran o'r safle y mae angen ei ddatblygu i ddarparu un o'r adeiladau ysgol newydd. Byddai darpariaeth chwaraeon awyr agored hygyrch ar gyfer y gymuned a chyfleusterau mewnol wedi'u neilltuo i'r gymuned yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynlluniau arfaethedig i godi'r adeiladau newydd, a ddylai – gobeithio – ddileu unrhyw anfantais ganfyddedig a fyddai'n gysylltiedig â datblygu'r safle.

## Effaith y cynigion

### Ansawdd a safonau mewn addysg

**Deilliannau (safonau a lles)**

Ers eu harolygiad diwethaf, mae safonau yn Ysgol Gynradd Corneli wedi gwella. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn parhau i wneud y lefelau disgwyliedig o gynnydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr agored i niwed yn gwneud cynnydd da neu well ar draws yr ysgol.

Ers eu harolygiad diwethaf mae safonau yn Ysgol Gynradd Afon-y-felin wedi gwella. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn gwneud y lefelau disgwyliedig o gynnydd ac mewn nifer o achosion, mae'r cynnydd y tu hwnt i'r lefelau disgwyliedig o gynnydd. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr agored i niwed yn gwneud cynnydd da neu well ar draws yr ysgol.

Yn eu harolygiad diwethaf, dywedodd Estyn fod safonau yn Ysgol y Ferch o'r Sgêr yn ddigonol a bod angen eu gwella. Ers yr arolygiad mae safonau wedi gwella a bellach mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn perfformio'n dda ar draws yr ysgol gan alluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gyrraedd eu targedau. Yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (cPYADd) yn gwneud cynnydd da iawn, heb unrhyw fwlch sylweddol mewn perfformiad.

Yn unol â blaenoriaethau'r awdurdod lleol a blaenoriaethau cenedlaethol, mae gan bob ysgol feysydd ar gyfer gwella sy'n debyg fwy neu lai ac yn gysylltiedig â llythrennedd, datblygu'r cwricwlwm i Gymru a lles. Ni fyddai lleoliad cymunedol mwy fel a gynigir yn effeithio ar y meysydd blaenoriaeth hyn.

**Y ddarpariaeth (addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad, a'r amgylchedd dysgu)**

Mae ansawdd yr addysgu yn Ysgol Gynradd Corneli, Ysgol Gynradd Afon-y-felin ac Ysgol y Ferch o'r Sgêr yn dda neu'n well. Mae gan bob ysgol brosesau a systemau datblygedig i helpu i sicrhau bod ansawdd y dysgu a'r addysgu'n cael ei gynnal. Mae'r ysgolion yn parhau i gynnig trefniadau effeithiol i gefnogi'r holl ddysgwyr. Mae pob ysgol yn gwneud y gorau o'u hamgylcheddau ond byddent yn cael budd sylweddol o fod ag amgylcheddau dysgu sydd wedi'u dylunio i hwyluso egwyddorion

addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag ategu'r Cwricwlwm i Gymru. Felly, mae'n debygol y byddai profiadau ar gyfer dysgwyr yn gwella gyda chyfleuster modern, pwrpasol fel a gynigir.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth (arweinyddiaeth, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)**

Yn y cylch categoreiddio diweddaraf (Medi 2019) cydnabuwyd fod arweinyddiaeth ym mhob ysgol yn dda neu'n well. Mae gan bob ysgol brosesau sydd wedi hen ennill eu plwyf ar gyfer dwyn gwelliannau. Mae gan Ysgol y Ferch o'r Sgêr ddiffyg sylweddol yn ei chyllideb ar hyn o bryd. Pe bai'r newidiadau'n cael eu rhoi ar waith, ni fyddai unrhyw effaith negyddol ar y capasiti i arwain yn y lleoliad mwy o faint ac fe allai'r safle mwy a gynigir ddenu mwy o ddysgwyr, gan helpu i wrthbwyso'r diffyg.

Ceir crynodeb o adroddiadau arolygu diweddaraf Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ar ysgolion Cymraeg a Saesneg y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt yn Atodiad 1. Mae'r adroddiadau arolygu llawn ar gael o wefan Estyn: www.estyn.gov.wales/

**Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)**

Mae CSCA Pen-y-bont ar Ogwr yn nodi'r weledigaeth ynglŷn â sut y byddwn yn cyfrannu at y flaenoriaeth genedlaethol i hybu'r Gymraeg. I ategu hyn, mae un o'r amcanion yn ein CSCA yn nodi'r angen i gynnal dadansoddiad o'r galw i helpu i nodi'r model yn y dyfodol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Rydym bellach yn gweithio tuag at dargedau fel ein bod yn fwy uchelgeisiol ynglŷn â chynyddu / hybu'r iaith.

Mae'r gwaith hwn wedi pennu strategaeth ar gyfer cyflawni darpariaeth yn y dyfodol trwy gynyddu'r ddarpariaeth ar lefel gynradd o fewn ffrâm amser Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. Hefyd, argymhellir y bydd lleoedd cynradd pellach a mwy o ddarpariaeth uwchradd yn cael eu cyflawni ym Mandiau nesaf y rhaglen.

Bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan y bydd y prosiect yn cyflawni cynnydd sylweddol yn y lleoedd ar gyfer disgyblion yn Ysgol y Ferch o'r Sgêr. Mae'n debygol y bydd y nifer sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cynyddu o ganlyniad i ddarparu adeilad ysgol yr 21ain ganrif – gan bod potensial i gyflwr eithriadol o wael yr adeilad presennol fod yn annymunol iawn i lawer o rieni sy'n ystyried addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Hefyd, o ystyried y byddai'r ddwy ysgol newydd arfaethedig yn agos iawn at ei gilydd (dim ond ffordd sy'n gwahanu'r safleoedd a ddewiswyd ar gyfer y naill a'r llall o'r ysgolion newydd arfaethedig) mae'n debygol y byddai rhannu arbenigedd addysgu cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg rhwng yr ysgolion yn dasg syml.

Rhagwelir y bydd y nifer sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cynyddu o ganlyniad i'r cynnig, gan felly ategu targedau CSCA yr Awdurdod, hybu'r Gymraeg a chynyddu niferoedd y plant mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir sy'n trosglwyddo i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

## Ystyriaethau eraill

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fyddai'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgolion newydd arfaethedig. Byddai'r trefniadau derbyn fel a nodir yn nogfen y Cyngor, 'Prosbectws Dechrau yn yr Ysgol – Canllaw i Bolisi a Threfniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer Derbyn i Ysgolion':

https://www.bridgend.gov.uk/media/6460/2020-2021-trefniadau-a-pholisi-derbyn-ysgolion-f20-cymraeg.pdf

https://www.bridgend.gov.uk/media/7464/2020-to-2021-starting-school-prospectus-english.pdf

60 fyddai'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig ar gyfer yr ysgol Saesneg newydd, a 60 fyddair Nifer Derbyn Cyhoeddedig ar gyfer Ysgol y Ferch o'r Sgêr.

## Trefniadau teithio a'r effaith ar hygyrchedd

Bydd disgyblion yn cael cludiant am ddim i'r ysgolion yn unol â pholisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gludiant i'r ysgol. Darperir cludiant am ddim i'r ysgol yn y Sir ar hyn o bryd ar gyfer pellteroedd cerdded sy'n fwy nag 1.5 milltir ar hyd

llwybrau cerdded sydd ar gael yn achos disgyblion oed meithrin ac ar gyfer pellteroedd cerdded sy'n fwy na 2 filltir ar hyd llwybrau cerdded sydd ar gael yn achos disgyblion cynradd.

Mae'r safleoedd arfaethedig ar gyfer yr ysgolion newydd lai na 0.3 milltir i ffwrdd o safleoedd presennol yr ysgolion. Mae hyn o fewn y trothwy o 2 filltir a'r trothwy o 1.5 milltir ar gyfer cludiant i'r ysgol, felly rhagwelir y byddai'r rhai sy'n byw yng nghyffiniau'r ysgolion yn dal i allu cerdded pe byddid yn bwrw ymlaen â'r cynnig.

Bydd hyn hefyd yn cael ei asesu fel rhan o'r asesiad trafnidiaeth

## Asesiadau o'r Effaith

### Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae asesiad cychwynnol o'r effaith ar y gymuned wedi cael ei gynnal a byddem yn croesawu eich sylwadau/barn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn gan ystyried a fydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol/anffafriol.

Canlyniadau'r asesiad cychwynnol yw, yn dilyn cwblhau'r adeiladau ysgol newydd arfaethedig, y rhagwelir effaith gadarnhaol o ganlyniad i ddarparu cyfleusterau cymunedol modern, hygyrch.

Mae'r asesiad drafft cychwynnol i'w weld yn Atodiad A.

### Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Mae asesiad cychwynnol o'r effaith ar y Gymraeg wedi cael ei gynnal a byddem yn croesawu eich sylwadau/barn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn gan ystyried a fydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol/anffafriol.

Gan y byddai'r ysgol Gymraeg newydd arfaethedig wedi'i hehangu ac wedi'i lleoli mewn adeilad pwrpasol, mwy o faint, ystyried y byddai effaith gadarnhaol sylweddol ar y ddarpariaeth Gymraeg a brofir gan ddisgyblion ar hyn o bryd.

Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'i bolisi iaith Gymraeg trwy wneud yn siŵr bod yr holl arwyddion a ddefnyddir ar safleoedd yr ysgolion yn ddwyieithog.

Mae'r asesiad drafft cychwynnol i'w weld yn Atodiad B.

### Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae asesiad cychwynnol o’r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei gynnal a byddem yn croesawu eich sylwadau/barn fel rhan o’r ymgynghoriad hwn gan ystyried a fydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol/anffafriol.

Fel rhan o’r broses ar y cyfan, mae dyletswydd ar y Cyngor i ystyried goblygiadau unrhyw gynnig ar holl aelodau’r gymuned leol y gallai’r cynnig effeithio’n annheg arnynt o ganlyniad i’w roi ar waith. Mae asesiad sgrinio cychwynnol wedi cael ei gwblhau i ganfod y potensial ar gyfer cyfle anghyfartal o ganlyniad i’r cynigion hyn ac mae’n dynodi y bydd asesiad llawn o’r effaith ar gydraddoldeb yn ofynnol maes o law. Os oes gennych unrhyw farn am botensial y cynnig hwn i effeithio ar unrhyw grwpiau neu unigolion boed yn gadarnhaol neu’n anffafriol, yna byddem yn croesawu eich sylwadau fel rhan o’r ymgynghoriad hwn.

Mae’r asesiad sgrinio drafft cychwynnol i’w weld yn Atodiad C.

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn

Mae’r cynnig yn debygol o fod o fudd i blant a phobl ifanc yn unol â 7 nod craidd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn, sef:

- Cael dechrau da mewn bywyd;
- Cael ystod eang o gyfleoedd addysg a dysgu;
- Yr iechyd gorau posibl, heb gael eu cam-drin, eu fictimeiddio a heb i unrhyw un gam-fanteisio arnynt;
- Cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
- Cael gwrandawiad, cael eu trin â pharch a bod eu hil a’u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
- Bod â chartref diogel a chymuned sy’n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;
- Peidio â chael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi.

## Risgiau

Caiff y risgiau sy’n gysylltiedig â’r cynnig a’r gwrthfesurau eu nodi isod:

| Risg | Gwrthfesur |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Gwrthwynebiadau i'r cynnig | Cyfathrebu amserol effeithiol gyda'r holl randdeiliaid |
| Mae costau'r cynllun yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael | Cyfathrebu effeithiol gyda Llywodraeth Cymru ac achos busnes cadarn ar gyfer gwariant |
| Nid yw cost gwaith angenrheidiol i'r seilwaith priffyrdd n hysbys ar hyn o bryd | Mynd ati'n gynnar i gomisiynu asesiad trafnidiaeth i oleuo'r gyllideb ar gyfer gwaith angenrheidiol i briffyrdd |

## Dewisiadau Eraill

Cafodd opsiynau eraill yn lle'r rhai a gynigir eu hystyried. Isod ceir manylion nifer o opsiynau, ynghyd â'r rhesymau pam na ddewiswyd y rhain:

**Parhau â'r trefniadau presennol**

Diystyrwyd hwn yn bennaf am nad yw'r opsiwn hwn yn gynaliadwy, am nad yw'n cyflawni strategaeth ac yn cyrraedd nodau'r Awdurdod ac am y byddai'n peri anfantais i genedlaethau'r dyfodol o ddysgwyr trwy beidio â diwallu'r angen am leoedd ar gyfer disgyblion sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif. Gallai arwain at brinder o ran lleoedd addysg oherwydd y twf a ragwelir mewn tai yn yr ardal yn y dyfodol. Mae ysgolion mewn cyflwr gwael iawn ar hyn o bryd ac nid oes cyfleusterau priodol ganddynt i ddiwallu anghenion y cwricwlwm.

**Cyfrwng Cymraeg**

**Ysgol y Ferch o'r Sgêr *i* safle (cae) Ysgol Gynradd Afon y Felin**

Diystyrwyd hwn yn bennaf am bod y safle'n rhy fach i wneud lle i ddwy ysgol a'r caeau chwarae angenrheidiol.

**Estyniad i Ysgol y Ferch o'r Sgêr ac 1 Dosbarth Mynediad yn rhywle arall**

Diystyrwyd hwn yn bennaf am bod Ysgol y Ferch o'r Sgêr mewn cyflwr gwael iawn ar hyn o bryd ac am nad oes ganddi gyfleusterau priodol i ddiwallu anghenion y cwricwlwm, felly dim ond yn rhannol y byddai'r opsiwn hwn yn gwella cyfleusterau, y lle sydd ar gael ac o bosibl deilliannau, sydd wedi cael eu hamlygu fel maes ar gyfer gwella. Ceir risg uchel mai dim ond adnoddau cyfyngedig fyddai ar gael oherwydd niferoedd isel y disgyblion mewn ysgol newydd ag un dosbarth mynediad a gallai'r opsiwn hwn, yn ogystal â bod yn un gweddol ddrud, greu lleoedd gwag mewn ysgolion eraill sy'n gwrthdaro â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**Cyfnewid adeilad Ysgol Gynradd Afon y Felin a'r adeilad cyfrwng Cymraeg (Y Ferch o'r Sgêr)**

Diystyrwyd hwn yn bennaf am nad yw'n cynyddu'r capasiti cyfrwng Cymraeg ac am nad yw'n gwneud unrhyw beth i fynd i'r afael â'r ffaith bod y ddwy ysgol bresennol mewn cyflwr gwael iawn.

**Codi estyniad i Ysgol Gynradd Afon y Felin i greu Ysgol Gymraeg â 2 Ddosbarth Mynediad (Ysgol Gynradd Afon y Felin i hen adeilad Y Ferch o'r Sgêr ac fel arall hefyd)**

Diystyrwyd hwn yn bennaf am bod yr ysgolion presennol mewn cyflwr gwael a bod angen cyfleusterau a lle gwell o lawer arnynt. Byddai'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw'n dal i fodoli yn y ddwy ysgol bresennol dan yr opsiwn hwn ac ni fyddai'n gwella'r amgylchedd i'r holl ddysgwyr.

**Adeilad newydd ar gyfer Y Ferch o'r Sgêr i greu Ysgol Gymraeg ag 1.5 Dosbarth Mynediad**

Diystyrwyd hwn yn bennaf am nad yw'n cyd-fynd yn llwyr â'r CSCA ar dyhead ar gyfer twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg (DS ymrwymiadau Cymraeg 2050). Hefyd, ni fyddai ysgol ag 1.5 dosbarth mynediad yn ddigon mawr i fod yn gynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol (byddai'n rhaid ei ariannu'n llwyr â chyllid cyfalaf).

**Cyfrwng Saesneg**

**Ysgol Gynradd Corneli i Ysgol Gynradd Afon y Felin (codi estyniad i adeilad Ysgol Gynradd Afon y Felin)**

Diystyrwyd hwn yn bennaf am bod y safle'n rhy fach i wneud lle i ddwy ysgol a'r caeau chwarae angenrheidiol.

**Ysgol Gynradd Afon y Felin i Ysgol Gynradd Corneli (codi estyniad i adeilad Ysgol Gynradd Corneli)**

Diystyrwyd hwn yn bennaf am bod ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw yn y ddwy ysgol sy'n agos iawn at ei gilydd (byddai adeilad presennol Ysgol Gynradd Corneli'n aros). Er nad oes pwysau sylweddol ar leoedd ar hyn o bryd (er ei bod yn debygol y bydd pwysau yn y dyfodol wrth i safleoedd ymgeisiol yn y CDLl ddechrau cael eu datblygu), mae ein strategaeth leol yn darparu ar gyfer gwella cyflwr adeiladau ysgolion â chyfleusterau newydd i leihau'r ddibyniaeth ar waith cynnal a chadw parhaus.

**Ysgol Gynradd Afon y Felin i Ysgol Gynradd y Pîl (codi adeilad newydd fel estyniad i Ysgol Gynradd y Pîl)**

Diystyrwyd hwn yn bennaf am bod lleoliad ffisegol Ysgol Gynradd y Pîl mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Afon y Felin yn golygu ei bod yn dra thebygol, o ystyried y diffyg llwybrau diogel i ysgolion, y byddai costau cludiant i ddysgwyr yn rhy uchel. Ni ystyried bod Ysgol Gynradd y Pîl ac Ysgol Gynradd Afon y Felin yn rhan o'r un ddaearyddiaeth leol gan eu bod yn gwasanaethu cymunedau gwahanol.

**Hanner Ysgol Gynradd y Pîl i Ysgol Gynradd Afon y Felin ac Ysgol Gynradd Corneli yn y drefn honno**

Diystyrwyd hwn yn bennaf oherwydd lleoliad ffisegol Ysgol Gynradd y Pîl mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Afon y Felin ac Ysgol Gynradd Corneli – mae'n dra thebygol, o ystyried y diffyg llwybrau diogel i ysgolion, y byddai costau cludiant i ddysgwyr yn rhy uchel.

## Manylion yr ysgolion yr effeithir arnynt

Mae'r ysgolion cymunedol canlynol wedi cael eu nodi fel rhai y mae'n debygol y bydd y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt:

| Enw a chyfeiriad yr ysgol | Math | Rheswm y bydd effaith arni | Iaith | Ystod oedran |
|---|---|---|---|---|
| **CYNRADD** | | | | |
| Ysgol y Ferch o'r Sgêr | Cymunedol | Ehangu ac adleoli o fewn | Cyfrwng Cymraeg | 3-11 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Greenfield Terrace, Gogledd Corneli, CF33 4LW | | y safle presennol | | |
| Ysgol Gynradd Corneli, Greenfield Terrace, Gogledd Corneli, CF33 4LW | Cymunedol | Dirwyn i ben | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Afon y Felin Heol Y Parc, Gogledd Corneli, CF33 4PA | Cymunedol | Dirwyn i ben | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |

Mae'r ysgolion cymunedol canlynol yn yr ardal o amgylch. Er nad yw'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, mae'n bosibl (er nad yn debygol o anghenraid) y gallai fod effaith anuniongyrchol ar y cynnig mewn rhyw ffordd gyfyngedig (e.e. o bosibl o ganlyniad i'r ffaith bod rhieni'n mynegi dewis rhiant mewn perthynas â'r ysgol y maent yn ei ffafrio ar gyfer eu plant):

| Enw a chyfeiriad yr ysgol | Math | Rheswm y bydd effaith arni | Iaith | Ystod oedran |
|---|---|---|---|---|
| **CYNRADD** | | | | |
| Ysgol Gynradd y Pîl, Heol Tafarn y Pîl, Y Pîl, CF33 6AB | Cymunedol | Newid posibl yn newis rhieni | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, Stryd Pwllygath, Mynydd Cynffig, CF33 6ET | Cymunedol | Newid posibl yn newis rhieni | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert, Dan Y Lan, Abercynffig, CF32 9AB | Cymunedol | Newid posibl yn newis rhieni | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Cefn Cribwr, Cefn Road, Cefn Cribwr, Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 OAW | Cymunedol | Newid posibl yn newis rhieni | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd y Drenewydd-yn-Notais, New Road, Porthcawl, CF36 5BL | Cymunedol | Newid posibl yn newis rhieni | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Notais, Suffolk Place, Porthcawl, CF36 3ED | Cymunedol | Newid posibl yn newis rhieni | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Porthcawl, Meadow Lane, Porthcawl, CF36 5EY | Cymunedol | Newid posibl yn newis rhieni | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd West Park, West Road, Notais, Porthcawl, CF36 3SN | Cymunedol | Newid posibl yn newis rhieni | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| **UWCHRADD** | | | | |
| Ysgol Gyfun Cynffig, East Avenue, Mynydd Cynffig, CF33 6NP | Cymunedol | Newid posibl yn newis rhieni | Cyfrwng Saesneg | 11 - 18 |
| Ysgol Gyfun Porthcawl, 52 Park Avenue, Porthcawl CF36 3ES | Cymunedol | Newid posibl yn newis rhieni | Cyfrwng Saesneg | 11 - 18 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, Llangynwyd, Maesteg CF34 9RW | Cymunedol | Newid posibl yn newis rhieni | Cyfrwng Cymraeg | 11 - 19 |

Mae’r tabl isod yn darparu manylion niferoedd ar y gofrestr ym mis Ionawr 2020 ym mhob un o’r ysgolion yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan y cynnig a’r ffigyrau a gofnodwyd ar gyfer y pedwar cyfrifiad blynyddol blaenorol.

| | **Ion 2020** | | **Ion 2019** | | **Ion 2018** | | **Ion 2017** | | **Ion 2016** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | LlA | RhA | LlA | RhA | LlA | RhA | LlA | RhA | LlA | RhA |
| Ysgol Gynradd Corneli | 257 | 10 | 270 | 4 | 249 | 7 | 271 | 0 | 302 | 0 |
| Ysgol Gynradd Afon y Felin | 136 | 5 | 129 | 6 | 130 | 5 | 132 | 4 | 112 | 5 |
| Ysgol y Ferch o’r Sgêr | 163 | 3 | 172 | 1 | 192 | 1 | 219 | 2 | 249 | 0 |

Mae'r tablau canlynol yn darparu amcanestyniadau 5 Mlynedd o'r boblogaeth ddisgyblion:

**Ysgol Gynradd Corneli**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyf 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2020 | 10 | 21 | 34 | 32 | 20 | 37 | 49 | 36 | 28 | 267 | 267 |
| Ion 2021 | 2 | 26 | 36 | 33 | 32 | 22 | 39 | 49 | 36 | 278 | 278 |
| Ion 2022 | 7 | 28 | 41 | 35 | 34 | 35 | 23 | 38 | 49 | 290 | 290 |
| Ion 2023 | 7 | 28 | 27 | 40 | 36 | 36 | 37 | 22 | 39 | 272 | 279 |
| Ion 2024 | 7 | 28 | 25 | 26 | 41 | 38 | 38 | 36 | 23 | 262 | 272 |

**Ysgol Gynradd Afon y Felin**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyf 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2020 | 12 | 14 | 16 | 18 | 23 | 13 | 14 | 21 | 10 | 141 | 141 |
| Ion 2021 | 7 | 17 | 16 | 16 | 16 | 22 | 14 | 13 | 22 | 143 | 149 |
| Ion 2022 | 8 | 16 | 16 | 16 | 15 | 15 | 23 | 13 | 14 | 136 | 142 |
| Ion 2023 | 8 | 16 | 28 | 16 | 15 | 14 | 16 | 22 | 14 | 149 | 155 |
| Ion 2024 | 8 | 16 | 19 | 28 | 15 | 14 | 15 | 16 | 24 | 155 | 161 |

**Ysgol y Ferch o'r Sgêr**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyf 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2020 | 3 | 21 | 15 | 16 | 16 | 24 | 27 | 25 | 19 | 166 | 174 |
| Ion 2021 | 2 | 20 | 28 | 14 | 15 | 15 | 22 | 25 | 24 | 165 | 192 |
| Ion 2022 | 2 | 19 | 28 | 27 | 13 | 14 | 14 | 20 | 24 | 161 | 202 |
| Ion 2023 | 2 | 19 | 26 | 27 | 25 | 13 | 13 | 13 | 19 | 157 | 211 |
| Ion 2024 | 2 | 19 | 27 | 25 | 25 | 24 | 12 | 12 | 12 | 158 | 212 |

Nid yw'r amcanestyniadau a nodir uchod yn cynnwys y tai posibl yn y dyfodol a allai gael eu creu gan safleoedd ymgeisiol a gyflwynir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd CBS Pen-y-bont ar Ogwr (dim ond am safleoedd presennol yn y CDLl â chaniatâd cynllunio y mae'r amcanestyniadau'n rhoi cyfrif). Fodd bynnag, mae'n ddoeth ystyried effaith y CDLl yn y dyfodol wrth bennu'r strategaeth hirdymor ar gyfer addysg yn yr ardal. Mae swyddogion y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd wedi penderfynu bod ysgol Gymraeg â 2 ddosbarth mynediad yn briodol i'r cynnig ar gyfer ardal Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr (yng ngoleuni'r galw am leoedd ar gyfer disgyblion a fyddai'n cael ei greu gan dai posibl yn y dyfodol, yr angen i hybu'r Gymraeg ac i gynyddu niferoedd y plant mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir sy'n trosglwyddo i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg).

### Tir ac adeiladau

Un safle a nodwyd ar gyfer yr adeiladau ysgol newydd arfaethedig yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yw tir ym Mhlas Morlais, sy'n eiddo i V2C. Mae egwyddor y trafodiad tir arfaethedig sy'n ofynnol er mwyn i'r cynllun fynd yn ei flaen yn seiliedig ar fargen 'gyfnewid' gyda V2C, lle mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cyfnewid safle Ysgol Gynradd Afon y Felin am safle Plas Morlais V2C.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r capasitïau ac asesiad o ansawdd adeiladau yn unol â Chynlluniau Rheoli a Hygyrchedd Asedau'r Cyngor ar gyfer yr ysgolion y nodwyd fod y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Caiff capasiti ei gyfrifo'n unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 21/2011 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'.

| Ysgol | Capasiti | Ansawdd yr Adeilad |
|---|---|---|
| Ysgol y Ferch o'r Sgêr | 175 | Sgôr cyflwr ar y cyfan C+ (Gwael – yn dangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel a fwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Corneli | 288 | Sgôr cyflwr ar y cyfan C+ (Gwael – yn dangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel a fwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Afon y Felin | 158 | Sgôr cyflwr ar y cyfan C+ (Gwael – yn dangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel a fwriadwyd) |

## Cyllid

Bydd cost ddisgwyliedig yr ysgolion newydd yn cael ei thalu o Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi

Cydfuddiannol (MIM), y mae gennym ‘gymeradwyaeth mewn egwyddor’ ar ei gyfer, a rhaglen gyfalaf y Cyngor fel y’i cymeradwywyd gan y Cyngor. Byddwn yn bwrw ymlaen â’r gweithdrefnau achos busnes angenrheidiol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru yn ystod y camau datblygu a dylunio adeiladau.

Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen yna bydd cost yr ysgolion newydd yn cael ei hariannu trwy godi ar y gyllideb refeniw, dros gyfnod o 25 mlynedd. Mae amcangyfrifon cynnar yn dynodi y gallai hyn fod oddeutu £500k y flwyddyn, ond bydd hyn yn cael ei bennu wrth i’r cynllun fynd rhagddo. Mae’r gost yn seiliedig ar gyfradd ymyrryd Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau MIM o 81%, gyda’r Awdurdod yn ariannu 19% o’r costau blynyddol, a 35% o unrhyw fuddsoddiad cyfalaf ymlaen llaw ar gyfer TGCh a dodrefn ac offer.

Byddai costau rhedeg yr ysgolion newydd yn cael eu talu o Gyllidebau Dirprwyedig yr Ysgolion fel sy’n digwydd ar hyn o bryd.

Y cyllid cyfartalog am bob disgybl cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw £3,637. Mae’r cyllid am bob disgybl ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Corneli yn £3,865. Mae’r cyllid am bob disgybl ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Afon y Felin yn £4,049. Mae’r cyllid am bob disgybl ar hyn o bryd yn Ysgol y Ferch o’r Sgêr yn £3,915.

Dylai’r cynnig arwain at effeithlonrwydd o ran costau. Mae’n anodd mesur yr union symiau ar hyn o bryd gan y byddant yn rhan o’r broses flynyddol ar gyfer cyllid fformiwla.

## Y broses ymgynghori

Bydd y broses ymgynghori’n cael ei chwblhau erbyn 7 Mawrth 2021 a bydd y deilliannau, a fydd yn cael eu hymgorffori fel rhan o’r cynnig lle y bo’n bosibl, yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad i gyfarfod y Cabinet ar 6 Ebrill 2021. Ni fydd ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau ffurfiol; dim ond yn ystod y cam pan gyhoeddir Hysbysiad Cyhoeddus y gall hyn ddigwydd fel a nodir isod. Os ceir penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig hwn hyd y gellir rhagweld a bydd angen ceisio cynnig arall.

Os mai bwrw ymlaen fydd y penderfyniad, byddai angen cyhoeddi hysbysiad statudol sy'n nodi'r cynnig a hynny am gyfnod o 28 diwrnod a byddai unrhyw wrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol yn cael eu gwahodd yn ystod y cyfnod hwn. Os ceir gwrthwynebiadau yn ystod cam yr Hysbysiad Cyhoeddus, bydd angen i'r Cabinet ystyried y cynnig. Wedyn gallai'r Cabinet dderbyn, gwrthod neu addasu'r cynnig. Os na cheir gwrthwynebiadau i'r cynnig, yna bydd yn mynd yn ei flaen yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan y Cabinet.

## Y camau nesaf

Mae'r ddarpar amserlen a'r weithdrefn fel a ganlyn:

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyfnod ymgynghori lle'r ydym yn croesawu eich barn a'ch sylwadau am y cynnig*. | 25 Ionawr 2021 tan 7 Mawrth 2021 |
| Adroddiad Ymgynghori Drafft i'r Cabinet ar ddeilliannau'r ymgynghoriad. | 6 Ebrill 2021 |
| Cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori Cymeradwy ar wefan CBS Pen-y-bont ar Ogwr, gyda chopïau caled ar gael ar gais. | 12 Ebrill 2021 |
| Os bydd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cytuno â'r cynnig, bydd Hysbysiad Cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi a bydd cyfnod o 28 diwrnod i gyflwyno unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig yn ysgrifenedig. | 26 Ebrill 2021 |
| Os na cheir unrhyw wrthwynebiadau gall y Cabinet benderfynu a ddylid bwrw ymlaen ai peidio. Os ceir unrhyw wrthwynebiadau, bydd Adroddiad Gwrthwynebiadau yn cael ei anfon ymlaen at y Cabinet er mwyn iddo'i ystyried a gwneud penderfyniad wedi hynny. Wedyn bydd yr adroddiad cymeradwy'n cael ei gyhoeddi ar wefan CBS Pen-y-bont ar Ogwr a bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael ar gais. | 9 Mehefin 2021 |
| Rhoi'r cynnig ar waith. | 1 Medi 2023 (Cyfrwng Saesneg) 2 Medi 2024 (Ysgol y Ferch o'r Sgêr) |

*Sylwer na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynigion. Dim ond yn ystod cyfnod yr hysbysiad cyhoeddus y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

## Beth y mae'n rhaid i chi ei ystyried yn awr?

Fe'ch gwahoddir i ystyried y cynnig a chyflwyno'ch barn ynglŷn â bod yn gefnogol neu beidio i'r cynnig i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin i ben a sefydlu ysgol 'newydd' o 1 Medi 2023 a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol y Ferch o'r Sgêr trwy ehangu'r ysgol o 2 Medi 2024.

Sut mae gwneud eich barn yn hysbys?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynglŷn â'r cynnig hwn, os ydych yn dymuno rhoi eich barn yn ysgrifenedig, awgrymu cynigion eraill neu ofyn am gopi o'r adroddiad ymgynghori pan fydd yn cael ei gyhoeddi, cysylltwch â'r isod (gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb sydd wedi'i hatodi):

**Post:** Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (EDSU), Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

Marciwch yr amlen ar gyfer sylw EDSU, neu

**E-bost:** edsu@bridgend.gov.uk

**Ar-lein:** www.bridgend.gov.uk/consultation

**Ffôn:** (01656) 643643

Mae fformatau eraill ar gael ar gais hefyd.

Rhaid i bob barn ddod i law fan bellaf erbyn **7 Maw 2021.**

## Ffurflen ymateb

**Ffurflen ymateb -** Cynnig i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin i ben a sefydlu ysgol 'newydd' o 1 Medi 2023 a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol y Ferch o'r Sgêr trwy ehangu'r ysgol o 2 Medi 2024.

**Enw:** ______________________

**Manylion cyswllt**: ______________________

**Nodwch eich rôl** (*trwy roi tic*)**:**

- ☐ **Llywodraethwr ysgol**
- ☐ **Rhiant/gwarcheidwad**
- ☐ **Disgybl ysgol**
- ☐ **Staff ysgol**
- ☐ **Parti arall â buddiant (rhowch fanylion)**

______________________

**Ydych chi'n cefnogi'r cynnig:** **Ydw/Nac ydw**

**Os nad ydych yn cefnogi'r cynnig – nodwch pam:**

______________________

**Sylw/awgrymiadau/ceisiadau/cwestiynau**:

**Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau i'r cynigion a gyflwynir neu ddewisiadau eraill yn eu lle rhowch fanylion:**

______________________

**Unrhyw sylwadau eraill:**

______________________

## Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

**Drafft – i'w ddiweddaru ar ôl yr ymgynghoriad**

**Enw'r cynnig:**

Cynnig i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin i ben a sefydlu ysgol 'newydd' o 1 Medi 2023 a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol y Ferch o'r Sgêr trwy ehangu'r ysgol o 2 Medi 2024.

**Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? :**

Y Cabinet

**Pwy sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynnig? :**

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Y Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Rheolwyr Grŵp – Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Bwrdd y Rhaglen Strategol Moderneiddio Ysgolion

Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Ysgolion

Rheolwr Prosiect – Moderneiddio Ysgolion

**Nodau ac amcanion:**

Cynnig i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin i ben a sefydlu ysgol 'newydd' o 1 Medi 2023 a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol y Ferch o'r Sgêr trwy ehangu'r ysgol o 2 Medi 2024.

**Camau gweithredu allweddol**:

- Gweithdrefn statudol i wneud newid a reoleiddir i Ysgol Gynradd Corneli, Ysgol Gynradd Afon y Felin ac Ysgol y Ferch o'r Sgêr.

**Deilliannau disgwyliedig:**

Mae'r cynnig yn golygu y byddai'r ysgolion cynradd Saesneg lleol presennol yn ardal Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr (Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin) yn cau ac yn dod ynghyd fel ysgol newydd ar safle ysgol newydd (safle 'Marlas' V2C). Byddai'r dalgylchoedd presennol ar gyfer y ddwy ysgol bresennol yn cael eu huno i greu un dalgylch.

Mae'r cynnig yn golygu y byddai'r ysgol gynradd Gymraeg leol bresennol (Ysgol y Ferch o'r Sgêr) yn cael ei hehangu a'i hadleoli i adeilad ysgol newydd a fyddai'n cael ei godi ar safle presennol Ysgol Gynradd Corneli/Ysgol y Ferch o'r Sgêr.

**Ar bwy fydd y cynnig yn effeithio:** Staff, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni a'r gymuned

**Ar oddeutu faint o bobl fydd y cynnig yn effeithio:** o bosibl dros 1000 o bobl
**Dyddiad pan ddisgwylir penderfyniad**: Mehefin 2021.

**Cwmpas/ffocws yr asesiad:** Ystyriaeth i'r canlynol

- defnydd presennol o'r ysgolion gan y gymuned;
- hygyrchedd i ddisgyblion, staff, rhieni a'r gymuned;
- effaith symud ysgol gynradd
- effaith ar adeilad yr ysgol
- effaith ar y gymuned estynedig

**Data a/neu ymchwil sy'n berthnasol:**

- Defnydd o adeiladau ysgolion y tu allan i oriau arferol
- Adroddiad gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn 2006 a oedd yn dwyn y teitl 'Strategaeth, Egwyddorion, Polisi a Fframwaith Cynllunio' sy'n sail i'r dull ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau strategol yn y Fwrdeistref Sirol a'r 'Ddogfen Egwyddorion' a gyhoeddwyd wedyn yn 2015
- amcanestyniadau disgyblion, capasiti, cyflwr adeiladau

**Canfyddiadau:**
**Defnydd gan y gymuned:**

- Nid yw'r un o'r adeiladau presennol yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd y tu allan i oriau arferol gan fudiadau lleol nac ar gyfer dysgu gan oedolion a'r gymuned.
- Mae maes cwrt caled a strwythur 'cynhwysydd' metel ar y tir oddi ar Ffordd Gibbons ym Mhlas Morlais (sy'n eiddo i V2C) sydd wedi'i leoli ar ran o'r safle y mae angen ei ddatblygu i ddarparu un o'r adeiladau ysgol newydd. Byddai darpariaeth chwaraeon awyr agored hygyrch ar gyfer y gymuned a chyfleusterau mewnol wedi'u neilltuo i'r gymuned yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynlluniau arfaethedig i godi'r adeiladau newydd, a ddylai – gobeithio – ddileu unrhyw anfantais ganfyddedig a fyddai'n gysylltiedig â datblygu'r safle.

**Prif Bolisi:**

- Mae'r cynnig hwn yn gyson â'r egwyddorion a pholisi addysg a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn 2006 mewn perthynas â'r ddarpariaeth – 'Cymunedau sy'n Dysgu – Ysgolion y Dyfodol' a'r 'Ddogfen Egwyddorion' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015

**Amcanestyniadau disgyblion, capasiti, cyflwr adeiladau:**

- Mae'r amcanestyniadau disgyblion sy'n effeithio ar ysgolion cynradd yn y clwstwr yn dangos bod y boblogaeth ddisgyblion yn cynyddu ar gyfer ardaloedd penodol o fewn y clwstwr.
- Caiff cyflwr yr adeiladau presennol ei nodi isod:

| **Ysgol** | **Ansawdd yr Adeilad** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Ysgol y Ferch o'r Sgêr | Sgôr cyflwr ar y cyfan C+ (Gwael – yn dangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel a fwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Corneli | Sgôr cyflwr ar y cyfan C+ (Gwael – yn dangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel a fwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Afon y Felin | Sgôr cyflwr ar y cyfan C+ (Gwael – yn dangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel a fwriadwyd) |

**Effaith ar y gymuned estynedig**

- Mae'n debygol y bydd effaith gadarnhaol o ran bod cyfleusterau cymunedol modern, hygyrch, pwrpasol wedi'u lleoli ym mhob un o'r ysgolion newydd arfaethedig.

**Effaith ar ysgolion eraill**

- Ni thybir bod y cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar ysgolion eraill yn yr ardal (heblaw ar yr ysgolion hynny sydd wedi'u cynnwys yn uniongyrchol h.y. Ysgol y Ferch o'r Sgêr, Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin).

**Sut fydd y penderfyniad yn effeithio ar bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig? :**

Ni thybir bod y cynnig yn debygol o effeithio'n anghymesur ar unrhyw nodweddion gwarchodedig. Os rhywbeth, fe allai fod effaith gadarnhaol o ystyried y byddai'r ysgolion newydd yn cael eu dylunio o'r dechrau un (yn hytrach na chael eu haddasu) i gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a fyddai'n cefnogi'r holl ddisgyblion, staff, ymwelwyr a.y.b.

**Ymgynghori**

**A fu ymgynghori penodol ynghylch y penderfyniad hwn (os na fu, dywedwch pam a/neu pryd y gallai hyn ddigwydd):**
Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 25 Ionawr 2021.

**Beth oedd canlyniadau'r ymgynghoriad? :**
Mae effaith y cynnig hwn wedi cael ei hystyried a gofynnwyd am ymatebion pellach fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, y bydd ei ganlyniad yn cael ei gofnodi ac y byddir yn adrodd wrth y Cabinet arno yn yr Adroddiad Ymgynghori

**Ar draws y nodweddion gwarchodedig, pa wahaniaethau barn wnaeth y dadansoddiad o'r ymgynghoriad eu datgelu?**
I'w gadarnhau yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad

**Pa gasgliadau a ddaethpwyd iddynt o'r dadansoddiad o'r modd y bydd y penderfyniad yn effeithio ar bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig?**
I'w gadarnhau yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad

## Asesiad o'r effaith ar staff

**Rhowch fanylion yr effaith ar staff, gan gynnwys y proffil staffio os/fel y bo'n briodol:**

Gallai’r cynnig gael effaith ar staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu. Mater i gyrff llywodraethu’r ysgolion unwaith y byddant yn deall anghenion yr ysgolion unigol a’r gyllideb sydd ar gael iddynt yw hyn er mwyn pennu’r strwythurau staffio sy’n ofynnol.

## Asesiad o’r effaith ar y gymuned ehangach

**Rhowch fanylion unrhyw effeithiau i’r gymuned gyfan:**

Mae safleoedd yr ysgolion newydd arfaethedig lai na 0.3 milltir i ffwrdd o safleoedd presennol yr ysgolion. Felly ni ragwelir y bod potensial sylweddol ar gyfer effaith negyddol ar y gymuned.

Fodd bynnag, mae posibilrwydd y gallai fod effaith gadarnhaol ar gydlyniant cymunedol oherwydd pe bai’r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai dysgwyr yn mynychu ysgolion ag adeiladau newydd, mwy o faint a fydd yn ymgorffori cyfleusterau cymunedol pwrpasol.

## Dadansoddiad o’r effaith yn ôl nodweddion gwarchodedig

**Crynhowch ganlyniadau’r dadansoddiad:**
Ni ystyrir ei bod yn debygol y bydd y cynnig yn effeithio’n anghymesur ar unrhyw nodweddion gwarchodedig.

## Aseswch berthnasedd ac effaith y penderfyniad i bobl â gwahanol nodweddion **Perthnasedd** = Uchel/Isel/Dim **Effaith** = Uchel/Isel/Niwtral

| Nodwedd | Perthnasedd | Effaith |
|---|---|---|
| Oedran | Uchel | Niwtral |
| Anabledd | Uchel | Niwtral |
| Ailbennu rhywedd | Dim | Niwtral |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim | Niwtral |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Dim | Niwtral |
| Hil | Dim | Niwtral |
| Crefydd neu gred | Dim | Niwtral |
| Rhyw | Dim | Niwtral |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim | Niwtral |
| Grwpiau eraill sydd wedi’u hallgau’n gymdeithasol (gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd) | Dim | Niwtral |

**Lle canfuwyd unrhyw effaith negyddol, nodwch y mesurau a gymerir i liniaru’r effaith honno:**

Bydd yr Awdurdod yn:

- Gweithio gyda'r cyrff llywodraethu a'r ysgolion i'w cynorthwyo i bennu strwythurau staffio.
- Annog a chynorthwyo'r ysgolion i barhau i ddarparu defnydd cymunedol o adeiladau'r ysgolion.
- Sicrhau pontio esmwyth trwy gydweithio'n agos gyda'r ysgolion.
- Byddai'r awdurdod lleol yn ceisio cynorthwyo'r ysgolion i feithrin perthnasoedd cadarnhaol i leddfu unrhyw bryder os yw'n bodoli ynghylch y cynlluniau adleoli arfaethedig.

**Hysbyswch ynghylch y goblygiadau ar y cyfan o ran cydraddoldeb y dylid eu hystyried yn y penderfyniad terfynol, gan ystyried perthnasedd ac effaith:**

I'w gadarnhau yn dilyn y broses ymgynghori.

**Llofnod:**

| |
|---|
| Rheolwr Prosiect Ysgolion |

**Dyddiad:**

| |
|---|
| 11 Rhagfyr 2020 |

## Atodiad B – Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

**Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr**

**Drafft – i’w ddiweddaru ar ôl ymgynghori**

Cynnig i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin i ben a sefydlu ysgol ‘newydd’ o 1 Medi 2023 a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol y Ferch o’r Sgêr trwy ehangu’r ysgol o 2 Medi 2024.

Ysgolion Saesneg yw Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin. Ysgol Gymraeg yw Ysgol y Ferch o’r Sgêr.

Mae cynnig Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yn golygu adeiladu dwy ysgol newydd ar gyfer yr 21ain ganrif (un ysgol Saesneg ac 1 ysgol Gymraeg). Cynigir disodli’r ysgol gynradd Gymraeg bresennol ag 1 dosbarth mynediad sy’n gwasanaethu’r ardal (Ysgol y Ferch o’r Sgêr) â darpariaeth wedi’i hehangu, trwy adeiladu ysgol newydd â 2 ddosbarth mynediad ac uned feithrin â 60 o leoedd. Cynigir hefyd cau ac ad-drefnu’r ysgolion cynradd Saesneg yn yr ardal (Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin) a dod â hwy ynghyd ar safle ysgol newydd. Byddai gan yr ysgol Saesneg newydd hithau gapasiti o 2 ddosbarth mynediad, uned feithrin â 60 o leoedd a Chanolfan Adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol â 15 o leoedd (darpariaeth bresennol Ysgol Gynradd Corneli).

Gan y byddai’r ysgol Saesneg newydd arfaethedig yn darparu addysg cyfrwng Saesneg (fel y mae Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin yn ei wneud ar hyn o bryd), ond mewn lleoliad ychydig yn wahanol (mae’r safleoedd arfaethedig ar gyfer yr ysgol newydd lai na 0.3 milltir i ffwrdd o safleoedd presennol yr ysgolion) tybir ei bod yn annhebygol y bydd effaith sylweddol ar y ddarpariaeth Gymraeg a brofir ar hyn o bryd gan ddisgyblion yn yr ysgol. Byddai’r Gymraeg yn dal i gael ei haddysgu trwy’r cwricwlwm fel y mae ar hyn o bryd.

Bydd yr ysgol Gymraeg newydd arfaethedig (ehangu Ysgol y Ferch o'r Sgêr) yn cael ei hadeiladu fel ysgol Gymraeg newydd â 2 ddosbarth mynediad ac uned feithrin â 60 o leoedd. Bydd hyn yn dwyn cynnydd sylweddol yn nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion yn Ysgol y Ferch o’r Sgêr. Mae’n debygol y bydd y nifer sy’n dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cynyddu o ganlyniad i ddarparu adeilad ysgol yr 21ain ganrif - gan bod potensial i gyflwr eithriadol o wael yr adeilad presennol fod yn annymunol iawn i lawer o rieni sy’n ystyried addysg cyfrwng Cymraeg i’w plant. Hefyd, o ystyried y byddai’r ddwy ysgol newydd arfaethedig yn agos iawn at ei gilydd (dim ond ffordd sy’n gwahanu’r safleoedd a ddewiswyd ar gyfer y naill a’r llall o’r ysgolion newydd arfaethedig) mae’n debygol y byddai rhannu arbenigedd addysgu cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg rhwng yr ysgolion yn dasg syml. Rhagwelir y bydd y nifer sy’n dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cynyddu o ganlyniad i’r cynnig – gan felly ategu’r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr Awdurdod, hybu’r Gymraeg a chynyddu niferoedd y plant mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir sy’n trosglwyddo i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

Bydd y naill a’r llall o’r ddwy ysgol newydd arfaethedig (yr un Gymraeg a’r un Saesneg) yn ymgorffori cyfleusterau cymunedol pwrpasol. Gallai’r cyfleusterau cymunedol newydd hyn gael eu defnyddio mewn partneriaeth gydag asiantaethau gan gynnwys ‘Cymraeg i Oedolion’, ‘Menter Bro Ogwr’ a Choleg Penybont e.e. i aelodau o’r gymuned ddysgu Cymraeg, a chymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg (naill ai yn yr ysgol Gymraeg neu yn yr ysgol Saesneg neu yn y ddwy). Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â’i bolisi iaith Gymraeg trwy wneud yn siŵr bod yr holl arwyddion a ddefnyddir ar safleoedd yr ysgolion yn ddwyieithog.

Rheolwr Prosiect Ysgolion

11 Rhagfyr 2020

## Atodiad C – Ffurflen sgrinio i asesu'r effaith ar gydraddoldeb

**Drafft – i'w ddiweddaru ar ôl ymgynghori**

**Ni ddylid cymeradwyo unrhyw bolisi newydd na diwygiedig oni bai bod ffurflen sgrinio i asesu'r effaith ar gydraddoldeb ac – os yw'n ofynnol – asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau.**

Rhaid cwblhau'r adrannau canlynol ar gyfer pob polisi newydd:

**Enw'r polisi sy'n cael ei sgrinio** Cynnig i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin i ben a sefydlu ysgol 'newydd' o 1 Medi 2023 a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol y Ferch o'r Sgêr trwy ehangu'r ysgol o 2 Medi 2024.

**Disgrifiad byr o'r Polisi.** Cynnig i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin i ben a sefydlu ysgol 'newydd' o 1 Medi 2023 a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol y Ferch o'r Sgêr trwy ehangu'r ysgol o 2 Medi 2024.

**A oes cysylltiad rhwng y polisi hwn ac unrhyw bolisïau eraill?** Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

**Beth yw nod neu ddiben y polisi?** Cynyddu mynediad at adeiladau sy'n addas i'w diben er mwyn cyflawni darpariaeth dysgu ac addysgu mewn ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg.

**Ar bwy y mae'r polisi hwn yn effeithio (e.e. staff, trigolion, pobl anabl, menywod yn unig?)**

Staff, rhieni, gofalwyr, plant a'r gymuned.

**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r polisi?**

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Rhaid cwblhau'r adrannau canlynol ar gyfer pob polisi sy'n cael ei adolygu neu ei ddiwygio:

**Ai adolygiad o bolisi presennol yw hwn?** Nage

**Os mai adolygiad o bolisi presennol neu ddiwygiad i bolisi presennol yw hwn, a oes unrhyw beth wedi newid ers iddo gael ei adolygu ddiwethaf?**
Amherthnasol

**A oes Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau'n flaenorol ar y polisi hwn?** Nac oes

**Os oes Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bodoli, pa ddata newydd sydd wedi cael ei gasglu ar grwpiau cydraddoldeb ers ei gwblhau?** Amherthnasol

**Cwestiynau sgrinio**

1. **A yw'r polisi hwn yn swyddogaeth bwysig neu 'ar raddfa fawr', a/neu a yw'n debygol y bydd y polisi'n effeithio ar nifer fawr o staff, trigolion a/neu gontractwyr?**

   Nac ydy (Canllawiau)

2. **A yw'n bosibl y bydd unrhyw agwedd ar y polisi'n effeithio ar bobl o grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol? (Gweler y canllawiau am restr o 'nodweddion gwarchodedig' i'w hystyried)**

| Nodwedd | Ydy | Nac ydy | Anhysbys | Eglurhad o'r effaith |
|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | | **X** | | Ni fydd y cynnig yn cael effaith wahanol nac effaith fwy ar bobl o'r grŵp yma. |
| **Anabledd** | | **X** | | Ni fydd y cynnig yn cael effaith wahanol nac effaith fwy ar bobl o'r grŵp yma. |
| **Ailbennu rhywedd** | | **X** | | Ni fydd y cynnig yn cael effaith wahanol nac effaith fwy ar bobl o'r grŵp yma. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | | **X** | | Ni fydd y cynnig yn cael effaith wahanol nac effaith fwy ar bobl o'r grŵp yma. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hil** | | **X** | | Ni fydd y cynnig yn cael effaith wahanol nac effaith fwy ar bobl o'r grŵp yma. |
| **Crefydd/cred** | | **X** | | Ni fydd y cynnig yn cael effaith wahanol nac effaith fwy ar bobl o'r grŵp yma. |
| **Rhyw** | | **X** | | Ni fydd y cynnig yn cael effaith wahanol nac effaith fwy ar bobl o'r grŵp yma. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | **X** | | Ni fydd y cynnig yn cael effaith wahanol nac effaith fwy ar bobl o'r grŵp yma. |
| **Partneriaethau Sifil a Phriodas** | | **X** | | Ni fydd y cynnig yn cael effaith wahanol nac effaith fwy ar bobl o'r grŵp yma. |

(Canllawiau)

Ehangwch ar eich ateb os gwelwch yn dda:

Amherthnasol

**3. Beth yw'r risg y gallai unrhyw agwedd ar y polisi arwain mewn gwirionedd at wahaniaethu neu effeithiau niweidiol yn erbyn unrhyw grŵp o bobl? (Gweler y canllawiau am restr o'r nodweddion gwarchodedig?)**

Bach iawn.

Pa gamau a gymerwyd i liniaru'r risg hon? Canllawiau

Ehangwch ar eich ateb os gwelwch yn dda:

Mae'n annhebygol y bydd unrhyw effaith negyddol uniongyrchol ar unrhyw grŵp gwarchodedig.

4. **A allai unrhyw agwedd ar y polisi helpu CBS Pen-y-bont ar Ogwr i gyflawni prif ddyletswyddau'r sector cyhoeddus? Cofiwch fod y ddyletswydd yn cwmpasu 9** nodwedd warchodedig. Canllawiau

| Dyletswydd | GA LLA I | NA ALL AI | Anhysb ys |
|---|---|---|---|
| Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf | | **X** | |
| Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu | | **X** | |
| Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu | | **X** | |

***Nodwch yn llawn beth yw eich rhesymeg dros yr atebion a roddwyd i gwestiwn 4 gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r cyfiawnhad dros eich penderfyniadau.***

5. **A allai unrhyw agwedd ar y polisi helpu CBS Pen-y-bont ar Ogwr i hybu ei ymrwymiadau a nodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Cyngor?**

Gan bod y cynnig yn ymwneud â chynyddu mynediad at ddarpariaeth gynradd Gymraeg, tybir y byddai effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd.

6. **Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw dystiolaeth bod gan grwpiau gwahanol anghenion, profiadau, materion a/neu flaenoriaethau gwahanol mewn perthynas â'r polisi hwn?**

Nac ydym (Canllawiau)

Os ydych, ymhelaethwch os gwelwch yn dda:

7. **A yw'r polisi hwn yn debygol o effeithio ar Gydlyniant Cymunedol?**

Mae’n debygol y byddai effaith gadarnhaol ar Gydlyniant Cymunedol gan ei fod yn rhoi’r cyfle i roi darpariaeth gymunedol bwrpasol yn yr ysgolion newydd.

**Casgliadau**

**8. Pa lefel o flaenoriaeth o ran Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb fyddech chi’n ei rhoi i’r polisi hwn?** (Canllawiau)

| | | |
|---|---|---|
| **Isel** | - | Asesiad llawn o’r effaith ar gydraddoldeb o fewn tair blynedd i’r asesiad sgrinio |

| |
|---|
| ***Rhowch eglurhad llawn o’r rhesymau dros y farn hon gan gynnwys ymwybyddiaeth o’r cyfiawnhad dros eich penderfyniadau.*** <br><br> Mae’r cynnig yn annhebygol o effeithio’n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig. |

**7. A fydd unrhyw ddylanwad arall yn effeithio ar y raddfa amser ar gyfer Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb, e.e. terfyn amser Pwyllgor, terfyn amser allanol, rhan o broses adolygu ehangach?**

(Canllawiau)

Bydd yr asesiad llawn yn cael ei gynnal ar adeg briodol er mwyn i’r Cabinet roi ystyriaeth lawn i effaith y cynnig o ran eu proses benderfynu.

**9. Pwy fydd yn cwblhau’r Asesiad llawn o’r Effaith ar Gydraddoldeb?**

Y Rheolwr Grŵp, Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**Ffurflen sgrinio’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb wedi’i chwblhau gan:** Y Rheolwr Prosiect, Moderneiddio Ysgolion

**Dyddiad: 11.12.20**

# Atodiad 1

## Adroddiadau Estyn

Adroddiad ar Ysgol Y Ferch O'r Sger
Mawrth 2019

### Crynodeb


Mae ethos Cymreig cryf yn bodoli yn yr ysgol ac mae disgyblion yn dangos balchder tuag at ddiwylliant Cymru a'u cymuned leol. Ar y cyfan, mae'r addysgu yn gadarn ac mae athrawon yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu diddorol ac ymarferol i'r disgyblion, sy'n ennyn eu brwdfrydedd wrth ddysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Maent yn cydweithio'n dda ag eraill gan roi cymorth a chefnogaeth i'w cyfoedion pan fo angen. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion bregus yn ganmoladwy ac mae'n ymateb yn dda i'w hanghenion. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwrtais iawn ac yn ofalgar o'i gilydd.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae ansefydlogrwydd mewn staffio wedi cyfyngu ar allu arweinwyr i fynd i'r afael ag anghysondebau yn y ddarpariaeth a'r safonau. Bellach, mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn darparu arweiniad clir i waith yr ysgol, mae'r strwythur staffio cyfredol yn eglur ac mae'r arweinwyr ar bob lefel yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol. Maent bellach yn defnyddio ystod bwrpasol o weithgareddau gwerthuso addas. O ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth gynyddol gadarn am y safonau cyfredol sy'n eu galluogi i gynllunio a gweithredu gwelliannau addas.


| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Digonol ac angen gwella |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Digonol ac angen gwella |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Digonol ac angen gwella |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol ac angen gwella |

A report on Ysgol Y Ferch o'r Sger
March 2019

### Summary


The school has a strong Welsh ethos and pupils show pride towards Welsh culture and their local community. On the whole, teaching is sound and teachers provide a wide range of interesting and practical learning experiences for pupils, which engage their enthusiasm towards learning. Many pupils develop to become independent learners. They work well with others and provide their peers with help and support, when necessary. The school's provision for vulnerable pupils is commendable and responds well to their needs. Across the school, pupils are very polite and caring towards each other.

Over the last two years, instability in staffing has limited leaders' ability to address inconsistencies in provision and standards. The headteacher and governors now provide a clear direction for the school's work, the current staffing structure is clear and leaders at all levels fulfil their duties conscientiously. They now use a purposeful range of suitable evaluation activities. As a result, they have increasingly sound knowledge of current standards, which enables them to plan and implement suitable improvements.


| Inspection area | Judgement |
|---|---|
| Standards | Adequate and needs improvement |
| Wellbeing and attitudes to learning | Good |
| Teaching and learning experiences | Adequate and needs improvement |
| Care, support and guidance | Adequate and needs improvement |
| Leadership and management | Adequate and needs improvement |

A report on Corneli Primary School
June 2014

## Summary

| | |
|---|---|
| **The school's current performance** | **Adequate** |
| **The school's prospects for improvement** | **Adequate** |

**Current performance**

The school's current performance is adequate because:

- many pupils make good progress in reading as they move through the school;
- most pupils speak confidently, listen attentively and adapt their spoken language appropriately to informal and formal situations;
- the behaviour of most pupils is good;
- most pupils feel safe;
- most pupils eligible for free school meals pupils make good progress in relation to their individual targets;
- the school is a fully inclusive community, which treats all pupils equally and with respect; and
- the provision for pupils with additional leaning needs is good.

However:

- many pupils do not write enough extended pieces of work;
- many pupils do not make consistent progress in mathematics across the school;
- provision for the development of skills across the curriculum is not consistent, particularly for more able pupils; and
- a significant minority of teachers do not always provide challenging and engaging activities for all pupils.

May 2016

**Corneli Primary School**

**Outcome of the monitoring visit**

Corneli Primary School is judged to have made good progress in respect of the key issues for action following the Estyn visit in May 2016. The school has been removed from the list of schools requiring Estyn monitoring. There will be no further Estyn monitoring visits in relation to this inspection.

A report on Afon-Y-Felin Primary School
October 2013

## Summary

| | |
|---|---|
| **The school's current performance** | **Adequate** |
| **The school's prospects for improvement** | **Adequate** |

**Current performance**

The current performance of the school is adequate because:

- many pupils make expected and occasionally good progress in relation to their starting points, particularly in their speaking and listening and reading skills;
- many pupils with additional learning needs and free school meal pupils make appropriate and often good progress in line with their age and ability;
- the written work of many pupils is generally well presented; they punctuate their work correctly using appropriate spelling and display good number skills in lessons;
- pupils' thinking skills are developing well;
- almost all pupils have high standards of behaviour and wellbeing;
- teachers prepare well for lessons and generally deliver them at a good pace making good use of additional support in class; and
- pupils with emotional and/or learning needs are well supported.

However:

- very few pupils in key stage 2 write at length or for a range of purposes and audiences;
- in both key stages, the overuse of worksheets means that pupils do not apply their literacy skills well enough across all curriculum areas;
- pupils are generally not confident in solving problems using mental mathematics and do not often apply their numeracy skills well outside of mathematics lessons;
- more able pupils are not always challenged enough;
- the marking of pupils' work is inconsistent and does not often provide clear guidance for pupils on how they can improve;
- the progress that pupils make in speaking and listening, reading and writing in Welsh is not maintained at the end of key stage 2;
- there is no consistent trend of improved performance in the end of key stage 2 results and too few pupils attain the higher levels in mathematics and science; and
- the curriculum has significant aspects that require improvement.

Report of visit – Afon-Y-Felin Primary School
May 2015

## Outcome of monitoring

Afon y Felin Primary School is judged to have made sufficient progress in relation to the recommendations following the core inspection in October 2013.

As a result, Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales is removing the school from the list of schools requiring significant improvement.

## Atodiad 2

**Rhestr o randdeiliaid**

- Corff Llywodraethu, rhieni, staff, gofalwyr, gwarcheidwaid a disgyblion Ysgol Gynradd Afon y Felin, Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol y Ferch o'r Sgêr
- Ysgolion eraill o fewn y clwstwr/ardal
- Awdurdodau cyfagos
- Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Babyddol
- Gweinidogion Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Aelodau Cynulliad (ACau) Etholaethol a Rhanbarthol ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi
- Estyn
- Undebau llafur y staff addysgu a staff cymorth sy'n cynrychioli athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi
- Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Cynghorau Tref a Chymuned sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi
- Darparwyr meithrin annibynnol neu wirfoddol y gallai'r cynnig effeithio arnynt gan gynnwys y Mudiad Meithrin
- Tîm Gofal Plant/Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc CBS Pen-y-bont ar Ogwr a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle y bônt yn bresennol
- Aelodau'r Cabinet
- Y Bwrdd Rheoli Corfforaethol
- Aelodau'r Wardiau
- Rheolwr Grŵp CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Cynhwysiant
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
  Tîm Iechyd Meddwl Sylfaenol, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

- Y Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Pediatryddion, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg..
- Therapi Galwedigaethol (OT) GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Y Gwasanaeth Ffisiotherapi: GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Seicolegwyr Addysg, Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- SNAP Cymru
- Barnardo’s Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg